

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Swyddfa'r UE

Materion Ewropeaidd

Rhifyn 28 - Hydref/Gaeaf 2013-2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Cyflwyniad



Y Fonesig Rosemary Butler AC
Y Llywydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno rhifyn 28 o Materion Ewropeaidd ichi, sef ein dogfen sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar faterion Ewropeaidd.

Bydd 2014 yn flwyddyn bwysig i Gymru a'r UE mewn sawl ffordd.

Mae'n nodi dechrau fframwaith ariannol saith mlynedd newydd ar gyfer yr UE, ac mae Pwyllgorau'r Cynulliad wedi bod yn edrych yn ofalus ar y cyfleoedd a fydd ar gael i sefydliadau yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi lansio ymchwiliad newydd, yn dilyn ei waith ar Gronfeydd Strwythurol yr UE a Horizon 2020. Mae'n canolbwyntio ar raglenni sy'n cynnwys partneriaethau â gwledydd a rhanbarthau eraill o fewn yr UE, gan gynnwys Erasmus+, INTERREG, Creative Europe, COSME, a Connecting Europe. Yn dilyn ymweliad canfod ffeithiau i Frwsel, bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth ym mis Mawrth.

Ymhlith meysydd gwaith eraill Pwyllgorau'r Cynulliad sy'n gysylltiedig â'r UE mae ymchwiliadau i gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fasnach a mewnfuddsoddi, gwaith Cyllid Cymru, y polisi ynni, yr amgylchedd morol a rhywogaethau goresgynnol estron.

Mae 2014 hefyd yn nodi dechrau pum mlynedd o ddigwyddiadau a gweithgareddau i goffáu can mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Roeddwn yn lansiad y Rhaglen Cymru'n Cofio Wales Remembers 1914-1918 yn Amgueddfa'r Milwr Cymreig yng Nghastell Caerdydd ar 28 Hydref 2013. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymryd rhan ragweithiol yn y gweithgareddau coffáu, gyda rhaglen o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Rydym hefyd yn cymryd rhan bwysig yng ngwaith Bwrdd Rhaglen Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf a sefydlwyd gan y Prif Weinidog ac a gadeirir gan yr hanesydd sy'n enwog yn fyd-eang, Syr Deian Hopkin. Mae'r canmlwyddiant yn ein hatgoffa o bwysigrwydd ymwneud yn gadarnhaol â'n cymdogion Ewropeaidd, a bydd cyfranogiad agos y cymunedau yn Ffrainc, Gwlad Belg a rhannau eraill o Ewrop yn amlwg iawn.

Mae 2014 yn flwyddyn o newid i sefydliadau'r UE, gydag etholiadau Senedd Ewrop ym mis Mai, gan gynnwys y pedwar Aelod o Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru. Mae'n bwysig iawn fod gennym ddadl agored sy'n darparu gwybodaeth ac yn ymgysylltu, a'r gobaith yw bydd llawer yn pleidleisio yng Nghymru, yn arbennig o ystyried rôl cynyddol bwysig

Senedd Ewrop ym mhroses benderfynu'r UE. Bydd Comisiwn Ewropeaidd newydd hefyd erbyn diwedd 2014.

Bydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwyllo'r digwyddiadau hyn gyda diddordeb, yn dilyn ei ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses benderfynu'r UE. Disgwylir i'r adroddiad ar yr ymchwiliad hwn gael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnosau nesaf.

Mae 2014 hefyd yn nodi ugain mlynedd ers sefydlu Pwyllgor y Rhanbarthau, sef corff yr oeddwn yn aelod ohono ddeng mlynedd yn ôl. Mae'r Cynulliad yn parhau i ymwneud yn gadarnhaol yn ei waith, drwy ein cynrychiolwyr Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC. Ym mis Rhagfyr, roedd David Melding AC yn banelydd mewn cynhadledd lefel uchel ar sybsidiaredd a drefnwyd gan Bwyllgor y Rhanbarthau yn y Bundesrat yn ninas Berlin.

Rydym wedi croesawu nifer o westeion enwog a phwysigion i'r Cynulliad dros yr ychydig fisoedd diwethaf, gan gynnwys: Laszlo Andor, Comisiynydd Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant yr UE; Llysgenhadon yr Unol Daleithiau, Iwerddon, Ariannin, Bwlgaria, Denmarc, yr Eidal, Macedonia, Latfia, Lithwania a'r Swistir i'r DU; a dirprwyaeth seneddol o Ganada.

Yn olaf, hoffwn gydymdeimlo â theulu Anthony Packer, Is-gennad Anrhydeddus Cymru ar gyfer Lithwania, a fu farw y mis diwethaf. Cyflwynwyd Gorchymyn y Seren Ddiplomyddol i Anthony, sef yr anrhydedd uchaf yng Ngwasanaeth Diplomyddol Lithwania, gan Ei Hardderchogrwydd Mrs Asta Skaisgirytė Liauškienė, Llysgennad Lithwania i'r DU. Roedd yr anrhydedd yn addas iawn i gydnabod ei waith yng Nghymru.

Pynciau sy'n ymwneud â'r UE ym mhwyllgorau'r Cynulliad

Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

- **Ymchwiliad i Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC):** Mae'r ymchwiliad hwn wedi bod yn mynd rhagddo ers 2011. Ar 23 Ionawr cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd i drafod ei benderfyniadau mewn perthynas â gweithredu'r PAC yng Nghymru.
- **Polisi morol a physgodfeydd:** Cynhaliwyd sesiwn ddilynol i'r ymchwiliad hwn ar 6 Chwefror.
- **Polisi ynni a chynllunio yng Nghymru:** Cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiad dilynol ar 17 Hydref 2013, ac ymatebodd y Llywodraeth ar 22 Ionawr 2014. Roedd dadl y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad dilynol ar 29 Ionawr.
- **Rhywogaethau goresgynnol estron:** Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Ionawr 2014.
- **Ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy:** Lanswyd yr ymchwiliad hwn, sy'n trafod cydnherthedd a chynaliadwyedd arferion a pholisïau rheoli tir yng Nghymru, yn ystod haf 2013 gydag ymgynghoriad cyhoeddus. Yn ystod yr hydref a'r tymor presennol, mae'r Pwyllgor wedi cynnal sesiynau tystiolaeth ffurfiol gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys nifer o ymweliadau. Mae cyfarfod allanol arall wedi'i drefnu ar gyfer mis Chwefror, a bydd y Pwyllgor yn adrodd yn y gwanwyn.

Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Cronfeydd Strwythurol yr UE a Horizon 2020: Mae sesiwn ddiweddar wedi'i threfnu ar gyfer 20 Mawrth gyda Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid,** i drafod paratodau Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol newydd yr UE a Horizon 2020. Daw hyn yn sgîl yr ymchwiliadau a wnaed gan y Pwyllgor i'r ddau faes hyn yn ystod 2012 a 2013.
- **Rheoliadau Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a Chyfleuster Cysylltu Ewrop:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn dystiolaeth gyda swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Symudedd a Thrafnidiaeth y Comisiwn Ewropeaidd ar 21 Tachwedd 2013. Dilynodd y Pwyllgor hyn gyda sesiwn graffu gydag Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, ar 5 Rhagfyr a Robert Goodwill AS, Gweinidog y DU, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Trafnidiaeth ar 16 Ionawr.
- **Ymchwiliad i Gronfa'r UE 2014-2020:** mae'r ymchwiliad newydd hwn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd i Gymru o dan nifer o raglenni'r UE, gan gynnwys Erasmus+, Creative Europe, Interreg a Chyfleuster Cysylltu Ewrop / Rhwydweithiau Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd. Lanswyd ymgynghoriad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr a daeth i ben ar 31 Ionawr. Mae sesiynau tystiolaeth gydag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol wedi'u trefnu ar gyfer tymor y gwanwyn, yn ogystal â sesiwn gyda Gweinidog Cyllid Llywodraeth

Cymru ar 20 Mawrth. Ymwelodd y Pwyllgor â Brwsel ar 13-14 Chwefror i gasglu gwybodaeth gefndir ar gyfer yr ymchwiliad.

- **Ymchwiliad i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran hyrwyddo masnach a mewnfuddsoddi:** Mae'r ymchwiliad newydd hwn yn ystyried effeithiolrwydd strwythurau cymorth Llywodraeth Cymru i hyrwyddo allforion gan fusnesau yng Nghymru a hwyluso buddsoddiad uniongyrchol o dramor, gan gynnwys gwaith trawslywodraethol o fewn y DU. Cafodd ei lansio ym mis Rhagfyr gydag ymgynghoriad ysgrifenedig, a chynhelir sesiynau tystiolaeth yn ystod tymor y gwanwyn, gan gynnwys Gweinidogion Llywodraeth Cymru, academyddion a rhanddeiliaid eraill. Mae'r ymchwiliad yn trafod sut y mae'r cymorth mewnol presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cymharu â'r dull hyd braich blaenorol drwy Awdurdod Datblygu Cymru a Masnach Cymru Rhyngwladol.
- **Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc:** cyhoeddwyd yr adroddiad o'r ymchwiliad hwn ar 14 Tachwedd a gosodwyd yr ymateb gan Lywodraeth Cymru ar 15 Ionawr. Cafodd yr adroddiad ei drafod a'i nodi yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr.

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

- **Sesiwn ddiweddarau'r UE:** ar ôl cyhoeddi Rhaglen Waith 2014 y Comisiwn Ewropeaidd, cynhaliwyd sesiwn ddiweddarau'r UE ar 4 Rhagfyr i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y gwaith sy'n ymwneud â'r UE yn y Pwyllgor yn ystod 2014.
- **Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel:** Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth ac ymweliad ym mis Tachwedd 2013, a sesiwn dystiolaeth arall ar 6 Chwefror. Un agwedd y mae'r Pwyllgor yn edrych arni yw'r cwmpas i gymharu'r perfformiad yng Nghymru gyda gwledydd eraill yn Ewrop.

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

- **Sesiwn ddiweddarau'r UE:** ar ôl cyhoeddi Rhaglen Waith 2014 y Comisiwn Ewropeaidd, cynhaliwyd sesiwn ddiweddarau'r UE ar 4 Rhagfyr i drafod y blaenoriaethau ar gyfer y gwaith sy'n ymwneud â'r UE yn y Pwyllgor yn ystod 2014.

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Ymchwiliad i rôl Cymru ym mhroses yr UE o wneud penderfyniadau:** cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth eraill yn ystod yr hydref, gan gynnwys Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru, Fiona Hyslop MSP, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth yr Alban, y Gwir Anrhydeddus David Lidington AS, Gweinidog Llywodraeth y DU ar gyfer Ewrop, Hywel Ceri Jones, cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, a Rhodri Glyn Thomas AC yn ei gapasiti fel aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau. Gwnaeth 'grŵp rapporteur' o'r Pwyllgor hefyd ymweld â Brwsel ym mis Hydref i gyfarfod ag ASEau, y Comisiwn Ewropeaidd a chynrychiolwyr eraill o Frwsel. Bydd y Pwyllgor yn adrodd ym mis Chwefror.
- **Adroddiad ar Sybsidiaredd:** adroddiad tymhorol rheolaidd ar fonitro dimensiwn sybsidiaredd cynigion deddfwriaethol yr UE. Cafodd yr adroddiad diweddaraf, ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai a mis Awst 2013, ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 30 Medi 2013. Ni chafodd unrhyw bryderon ynghylch sybsidiaredd eu codi yn ystod y cyfnod

hwn. Bydd y Pwyllgor yn trafod adroddiad ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2013 yn ystod tymor y Gwanwyn hwn.

Y Pwyllgor Cyllid

- **Ymchwiliad i Ardaloedd Menter:** Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2013.
- **Cyllid Cymru:** mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i Cyllid Cymru, gan gynnwys ystyried ei rôl yn darparu'r cynllun micro-gyllid JEREMIE, wedi'i gefnogi gan gyllid ERDF a Banc Buddsoddi Ewrop, o dan y rhaglenni Cronfeydd Strwythurol 2007-2013 yng Nghymru. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gyntaf ar 5 Chwefror.
- **Cyllid Addysg Uwch:** lanswyd yr ymchwiliad hwn yn ystod haf 2013, gan gynnwys ymgynghoriad ysgrifenedig a sesiynau dystiolaeth yn ystod yr hydref. Mae Addysg Uwch Cymru wedi darparu rhagor o dystiolaeth, gan gynnwys ei ddefnydd o raglenni ariannu amrywiol yr EU a'i gyfranogiad atynt. Ceir trafodaethau pellach ym mis Chwefror.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- **Mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru:** Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiwn dystiolaeth gyntaf ar 22 Ionawr ac mae sesiynau pellach wedi'u trefnu ar gyfer tymor y Gwanwyn. Fel rhan o'r ymchwiliad bydd y Pwyllgor yn trafod arferion gorau yng ngwledydd eraill yr UE o ran cyflwyno technolegau newydd i systemau gofal iechyd.

Busnes y Cyfarfod Llawn gyda sesiynau penodol ar faterion Ewropeaidd

- 26 Tachwedd: Dadl ar y Cynllun Gweithredu Strategol Morol a Physgodfeydd, yn dilyn Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
- 26 Tachwedd: Dadl ar y manteision i Gymru i'r DU barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd
- 14 Ionawr: Dadl ar weithredu Polisi Amaethyddol Cyffredin newydd, yn dilyn Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd
- 14 Ionawr: Cwestiwn brys ynghylch y potensial sydd i ddefnyddio Cronfa Cydgyfnogaeth yr UE o'r DU i gefnogi'r camau sydd i'w gweithredu
- 22 Ionawr: Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Entrepreneuriaeth ymysg Pobl Ifanc

Er gwybodaeth: yn ogystal â'r uchod, mae materion Ewropeaidd yn codi'n aml mewn cwestiynau i Weinidogion.

Gweithgareddau allanol Aelodau ar fusnes y Cynulliad

- Rhwng 28 Awst a 5 Medi cynrychiolodd Joyce Watson AC, Cadeirydd y Gangen, Simon Thomas AC ac Ann Jones AC Gangen Cymru o'r CPA yng Nghynhadledd Seneddol y Gymanwlad rhif 59 yn Johannesburg, De Affrica.
- Ar 4 Medi aeth y Llywydd Rosemary Butler AC i gyfarfod CALRE ym Mrwsel.
- Ar 1 Hydref cyflwynodd Rhodri Glyn Thomas AC ei adroddiad drafft ar Gymorth y Wladwriaeth ar gyfer Pysgodfeydd a Dyframaethu yng nghyfarfod y Comisiwn Adnoddau Naturiol ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- Ar 2 Hydref cyflwynodd Mick Antoniw AC ei adroddiad drafft ar Wasanaethau Cyflogaeth Gyhoeddus Ewrop yng nghyfarfod y Comisiwn Materion Economaidd a Chymdeithasol ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- Rhwng 8 a 10 Hydref aeth Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC i Gyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau yn ystod Wythnos Diwrnodau Agored o Ddinasoedd a Rhanbarthau ym Mrwsel. Cadeiriodd Rhodri Glyn Thomas sesiwn banel gyda Banc Buddsoddi Ewrop, ac roedd yn banelydd mewn seminar a drefnwyd gan Gymdeithas Banciau Cyhoeddus Ewrop, gyda'r ddwy seminar yn canolbwyntio ar rôl cyllid cyhoeddus a phreifat yn yr UE, gan gynnwys rôl Banc Buddsoddi Ewrop.
- Rhwng 20 a 22 Hydref aeth David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, William Powell AC, Joyce Watson AC, Lindsay Whittle AC a Darren Millar AC i Gyfarfod Llawn rhif 47 y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig a gynhaliwyd yn Llundain. Thema'r gynhadledd oedd "Cytundeb Gwener y Groglith 15 mlynedd yn ddiweddarach".
- Rhwng 28 a 29 Tachwedd cyflwynodd Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC eu hadroddiadau ar fabwysiadu yng Nghyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel. Bydd Rhodri Glyn Thomas AC yn cyflwyno ei adroddiad yn Gymraeg.
- Ar 18 Rhagfyr bydd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, yn siarad yn chweched Gynhadledd Sybsidiaredd Pwyllgor y Rhanbarthau a gynhelir yn Senedd yr Almaen (Bundesrat) ym Merlin.
- Ar 13 Ionawr cynrychiolodd David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, y Cynulliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a Chymdeithasol y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ynghylch ei ymchwiliad presennol i deithwyr Roma a gynhaliwyd yn Nulyn.
- Ar 13 Ionawr cynrychiolodd William Powell AC y Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor Ewropeaidd y Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig ynghylch ei ymchwiliad presennol i rôl Banc Buddsoddi Ewrop a gynhaliwyd yn Lwcsembwrg.
- Ar 20 Ionawr aeth David Rees AC, Eluned Parrott AC, Antoinette Sandbach AC a Simon Thomas AC i ymweld â CERN yng Ngenefa, y Swistir, ar gyfer ymweliad i ganfod ffeithiau. Gwnaethant gysylltu ag ymchwilyr o Gymru sy'n gweithio ar y Peiriant Gwrthdaro Hadron a chyflymwr/synwryddion gronynnau eraill.
- Rhwng 20 a 22 Ionawr roedd Mick Antoniw AC yn rhan o ddirprwyaeth lefel uchel o Bwyllgor y Rhanbarthau i'r Ukrain.

- Ar 23 Ionawr roedd Rhodri Glyn Thomas AC yn siaradwr, yn ei gapasiti fel rapporteur ar gyfer Pwyllgor y Rhanbarthau, mewn cynhadledd a drefnwyd o dan y Rhaglen TAEX ym Mrwsel.
- Rhwng 30 a 31 Ionawr aeth Mick Antoniw AC i Gyfarfod Llawn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- Ar 6 Chwefror aeth Rhodri Glyn Thomas AC i gyfarfod Comisiwn Adnoddau Naturiol Pwyllgor y Rhanbarthau.
- Ar 7 Chwefror aeth Andrew RT Davies AC i Frwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd gyda Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Amaethyddiaeth a chynrychiolwyr eraill o Frwsel ynghylch y diwygiadau y cytunwyd arnynt yn ddiweddar ar gyfer PAC a'r cynnig arfaethedig o weithredu'r rhain yng Nghymru.
- Ar 10 Chwefror aeth Mick Antoniw AC i gyfarfodydd ym Mhwyllgor y Rhanbarthau
- Rhwng 12 a 13 Chwefror aeth Rhodri Glyn Thomas AC i gyfarfodydd Comisiwn Pwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel.
- Rhwng 13 a 14 Chwefror ymwelodd aelodau'r Pwyllgor Menter a Busnes â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd gyda swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd a chynrychiolwyr eraill o Frwsel fel cefndir i'w ymchwiliad newydd i Gyllid yr UE ar gyfer 2014-2020.

Ymweliadau rhyngwladol ac ymweliadau gan bwysigion eraill â'r Senedd

- Ar 12 Medi ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Andris Teikmanis, Llysgennad Latfia, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Ar 1 Hydref ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mrs Asta Skaisgirytė Liauškienė, Llysgennad Lithwania, â'r Cynulliad i roi tystiolaeth i Bwyllgor y Cadeirydd ar flaenoriaethau Lithwania yn ystod ei Llywyddiaeth o Gyngor yr Undeb Ewropeaidd a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei hymweliad â Chymru.
- Ar 8 Hydref ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Konstantin Dimitrov, Llysgennad Bwlgaria, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Ar 10 Hydref ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Jovan Donev, Llysgennad Macedonia, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Ar 25 Hydref ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Dominik Furgler, Llysgennad y Swistir, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.

- Ar 6 Tachwedd ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Matthew Barzun, Llysgennad Unol Daleithiau America, â'r Cynulliad a chyfarfu â Rosemary Butler AC, y Llywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Ar 5 Rhagfyr ymwelodd Ei Hardderchogrwydd Ms Alicia Castro, Llysgennad Ariannin, â'r Cynulliad a chyfarfu â Rosemary Butler AC, y Llywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei hymweliad â Chymru.
- Ar 6 Rhagfyr ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Claus Grube, Llysgennad Denmarc, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Rhwng 19 a 22 Ionawr croesawodd y Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, ddirprwyaeth seneddol o Ganada i'r Cynulliad ar ymweliad swyddogol i rannu arferion gorau ar ymgysylltu â dinasyddion a gweithio'n ddwyieithog.
- Ar 31 Ionawr ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Mr Pasquale Q Terracciano, Llysgennad yr Eidal, â'r Cynulliad a chyfarfu â David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei ymweliad â Chymru.
- Ar 5 Chwefror ymwelodd Ei Ardderchogrwydd Dr Daniel Mulhall, Llysgennad, â'r Cynulliad a chyfarfu â'r Fonesig Rosemary Butler AC, y Llywydd, fel rhan o gyfres o gyfarfodydd yn ystod ei hymweliad â Chymru.
- Ar 11 Chwefror cyfarfu'r Fonesig Rosemary Butler AC â Laszlo Andor, Comisiynydd yr UE ar gyfer Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant, yn ystod ei ymweliad â Chymru a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru.

Lincs

- [Hafan Cynulliad Cenedlaethol Cymru](#)
- [Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
- [Tudalennau'r Pwyllgorau](#)
- [Gwasanaeth Ymchwil](#)

Am ragor o wybodaeth—

Cysylltwch â:

Gregg Jones, Pennaeth y Swyddfa (Gregg.Jones@wales.gov.uk)
Swyddfa UE Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad)
Tŷ Cymru
6th Floor
Rond Point Schuman 11
1040 Bruxelles
Belgium
Ffôn: 0032 2 226 66 92
Mobile: 0044 (0) 7816 164 455

Neu

Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Cysylltiadau Allanol
Tŷ Hywel (3ydd Llawr)
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Ffôn: 0044 (0)29 2089 8642/8897
TimRhyngwladol@Cymru.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gobeithio y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i chi. Os ydych am dderbyn copïau o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, neu am dynnu eich enw oddi ar y rhestr i beidio â'i dderbyn, cysylltwch â Gregg Jones drwy e-bost.